RCSLT WALES CYMRU

# Methu â Chynllunio, Cynllunio i Fethu...

## gwaith cynllunio gweithlu therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru

**Arbenigwyr mewn anawsterau llyncu a chyfathrebu yw Therapyddion Lleferydd ac Iaith. Rydyn ni'n gweithio ar draws meysydd iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol a chyfiawnder gan gefnogi pobl ar bob oedran a phob cyfnod o fywyd, o fabanod newydd-anedig i bobl sy'n nesáu at ddiwedd eu hoes.**

Mae llai o Therapyddion Lleferydd ac Iaith y pen o'r boblogaeth yng Nghymru nac mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig (data aelodaeth Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith). Datgelodd arolwg swyddi gwag 2023 Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith fod cyfradd gyfartalog y swyddi gwag wedi cyrraedd **23% ledled y Deyrnas Unedig**. O'r rheolwyr a ymatebodd, dywedodd **96%** o'r rhai sy'n rheoli gwasanaethau plant a **90%** o'r rhai sy'n rheoli gwasanaethau oedolion fod recriwtio yn fwy heriol, neu'n llawer mwy heriol, nag ar unrhyw adeg yn ystod y tair blynedd diwethaf.

## Galw cynyddol am therapi lleferydd ac iaith

### Gofal yn nes at adre





Mae gan 50-75% o breswylwyr cartrefi nyrsio anghenion llyncu.
*(O'Loughlin et al,1998)*

**Rhagfynegir y bydd y boblogaeth sydd dros 75 oed yng Nghymru yn cynyddu o 9.3% yn 2018 i 13.7% yn 2038 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2019).**

Bydd hyn yn arwain at fwy o bobl gydag anghenion llyncu a chyfathrebu o achos strôc, dementia a chyflyrau eraill. Mae therapyddion lleferydd ac iaith yn allweddol i helpu pobl i aros yn iach gartref drwy ostwng risgiau pan maen nhw'n bwyta ac yfed a chefnogi cyfathrebu gyda theuluoedd a gweithwyr professiynol iechyd a gofal. Rydym yn croesawu'r buddsoddiad diwethaf mewn rolau gweithwyr professiynol perthynol i iechyd. Heb os, mi fydd galw am therapi lleferydd ac iaith yn yr maes hwn yn tyfu.

# Iechyd y Cyhoedd




Mae tua 50% o blant mewn ardaloedd o anfantais gymdeithasol uchel yn profi oedi o ran datblygu iaith, neu anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu eraill.
*(Locke et al, 2010)*

**Mae lleferydd ac iaith gynnar yn un o'r pedwar piler yn rhaglen Dechrau'n Deg.**

Mae Therapyddion Lleferydd ac Iaith yn cael eu cyflogi ym mhob lleoliad ac mae tystiolaeth dda o'u heffaith. Bydd ehangu Dechrau'n Deg yn arwain at gynnydd yn y galw am therapyddion lleferydd ac iaith.

# Cyfiawnder





Roedd gan 71% o'r plant a ddedfrydwyd i'r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr (Ebrill 2019-Mawrth 2020) anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.
*(Llywodraeth y DU, 2020)*

**Roedd adroddiad yn 2023 gan bwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol Senedd Cymru yn argymell:**

'Y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r ddarpariaeth bresennol a gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau ar gyfer gwreiddio therapyddion lleferydd ac iaith ym mhob Tîm Troseddau Ieuenctid yng Nghymru.' (Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 2023).

# Addysg

Mae gan 30% o blant yng Nghymru sydd ag anghenion dysgu ychwanegol anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. *(Cymru Gov, 2022)*



Mae'r galw am therapi lleferydd ac iaith i blant wedi cynyddu 30% ers COVID.
*(Stats Cymru, 2023)*

**Mae Therapyddion Lleferydd ac Iaith yn chwarae rhan allweddol yn yr agenda anghenion dysgu ychwanegol.**

Rydyn ni'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd i ddatblygu strategaethau personol i'w cefnogi i gyfathrebu hyd eithaf eu gallu. Rydyn ni hefyd yn darparu hyfforddiant a strategaethau i'r gweithlu ehangach, fel athrawon a chynorthwywyr dysgu.

# Beth allwch chi ei wneud?

**Gallwch ein helpu i godi ymwybyddiaeth am yr angen am gynnydd yn nifer y llefydd hyfforddi ar gyfer therapi lleferydd ac iaith drwy:**

- Siarad â'ch Bwrdd Iechyd Lleol i sicrhau bod niferoedd comisiynu therapi lleferydd ac iaith digonol yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau tymor canolig canolradd.
- Ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn tynnu sylw at y materion sy'n cael eu crybwyll yn y papur briffio hwn.
- Ysgrifennu at Addysg a Gwella Iechyd Cymru a phwysleisio pwysigrwydd cael cynllun gweithlu ar gyfer gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd er mwyn sicrhau bod digon o weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd i ddiwallu anghenion y boblogaeth.